# Mae’r System Anghenion Addysgol Arbennig yn newid

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y ffordd y bydd plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cael eu cefnogi. Mae’r system newydd yn diffinio AAA fel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae’r gyfraith yn newid am sawl rheswm, ond y prif un yw gwneud y broses yn symlach ac yn fwy tryloyw i bawb sy’n ymwneud â hyn.

Bydd y gyfraith newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY yn cyflwyno sawl prif newid, gan gynnwys:

- dod â’r holl systemau presennol ynghyd mewn un system newydd ar gyfer ADY;
- canolbwyntio ar y dysgwr;
- rhoi’r un hawliau a hawlogaethau i ddysgwyr beth bynnag yw eu hoedran neu’u lleoliad;
- gwella pontio rhwng lleoliadau;
- cynnig darpariaeth Gymraeg pan fo angen; a
- bod yn system deg a thryloyw i bawb.

Mae’r newidiadau hyn yn golygu y bydd plant a rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn:

- gallu manteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn gynharach;
- cymryd mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch y cymorth sydd ei angen arnynt;
- gallu dod o hyd i wybodaeth yn haws; a
- chael eu cefnogi os ydynt yn anghytuno â phenderfyniadau.

Mae’n bosibl y bydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael y cymorth hwn am gyfnod hirach. Nid yw’r system newydd yn rhoi hawl awtomatig i bob person ifanc ag ADY gael addysg barhaus hyd at 25 oed, ond mae’n bosibl y bydd rhai pobl ifanc yn gallu cael y cymorth hwn tan eu bod yn 25 oed os oes angen rhesymol arnynt am addysg a/neu hyfforddiant.

## Sut bydd hyn yn digwydd?

Bydd dull gweithredu’n raddol i gyflwyno’r newidiadau hyn dros **dair blynedd**.

Mae hyn yn golygu y bydd dwy system yn gweithredu o **fis Medi 2021-2024**, y system ADY newydd a'r system AAA bresennol. *(Ni fydd plant a phobl ifanc sydd â darpariaeth addysgol arbennig ar hyn o bryd drwy Ddatganiad AAA a'r rhai sydd*

*mewn unrhyw fath o addysg ôl-16, yn cael eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf y dull gweithredu'n raddol. Caiff canllawiau i rieni a gofalwyr ar y dull gweithredu ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn eu darparu cyn gynted ag y byddant ar gael. Bydd rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd y system yn gweithio i gefnogi pobl ifanc mewn addysg ôl-16 hefyd yn cael ei darparu).*

Am dair blynedd bydd pob awdurdod lleol, lleoliad Blynyddoedd Cynnar, ysgol a lleoliad Addysg Bellach (e.e. Coleg Ôl-16) yn gweithio'n galed gyda phlant a'u teuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod pawb yn deall y newidiadau hyn.

Bydd gan deuluoedd gyfle i fanteisio ar wybodaeth, cyngor a chymorth diduedd. Mae hyn yn statudol, sy'n golygu bod yn rhaid iddo gael ei ddarparu yn ôl y gyfraith.

Mae'n rhaid bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru drefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd i blant a'u teuluoedd a phobl ifanc. Yn yr awdurdod lleol hwn SNAP Cymru sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r hyn sy'n cael ei ddarparu yn cael ei lunio gan Ddeddf ADY (Cymru) 2018 a Chod ADY newydd 2021.

Gallwch ddysgu mwy am y rhaglen trawsnewid ADY a chanllawiau ar y system AAA bresennol yma gan gynnwys cwestiynau cyffredin a chanllawiau rhaglen trawsnewid ADY.

## Beth sy'n digwydd nawr?

Mae'n bosibl y bydd gan blant a phobl ifanc ag AAA neu anawsterau/anableddau dysgu:

- gynllun addysg unigol (CAU);
- datganiad; neu
- cynllun dysgu a sgiliau.

## Beth fydd yn newid?

Bydd anghenion llawer o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn parhau i gael eu diwallu drwy ymarfer ystafell ddosbarth rheolaidd o ansawdd uchel. Bydd ychydig o blant a phobl ifanc ag anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY). Mae hon yn ddarpariaeth sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oedran. Bydd gan y plant a'r bobl ifanc hyn gynllun datblygu unigol (CDU).

## Beth yw cynllun datblygu unigol?

Caiff cynllun datblygu unigol ei greu drwy gydweithio â'r plentyn a'r rhiant/gofalwr neu'r person ifanc mewn partneriaeth ag asiantaethau ehangach a allai fod yn gysylltiedig fel gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Bydd y cynllun datblygu unigol yn dweud beth sydd angen i'r plentyn neu'r person ifanc allu ei ddysgu, gan nodi:

- yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac ar eu cyfer nhw;
- disgrifiad o'u hanghenion dysgu a
- beth fydd yn cael ei wneud fel eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol yn yr ysgol neu'r coleg a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu eu hanghenion dysgu ychwanegol.

Caiff y cynllun hwn ei adolygu bob deuddeg mis neu'n gynt os bydd angen.

Gall CDU gael ei greu a'i oruchwylio (ei gynnal) gan ysgolion, colegau neu'r awdurdod lleol. Pwy bynnag sy'n cynnal y CDU, y mae dal i fod yn ddogfen gyfreithiol felly mae'n rhaid i'r ddarpariaeth sydd wedi'i hysgrifennu ynddi gael ei chynnal yn ôl y gyfraith. Yn ystod y tair blynedd nesaf, bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli'r holl gynlluniau sydd gennym yn awr gan gynnwys:

- Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA);
- cynlluniau addysg unigol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd drwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy; a
- dysgu a Chynlluniau Sgiliau (ar gyfer dysgwyr dros 16 oed sy'n mynd i'r coleg).

## Mae'r 'Ddyletswydd Gwneud Penderfyniadau' newydd ar yr ysgol

Pan fydd ysgol yn ymwybodol y gall fod gan blentyn neu berson ifanc yn yr ysgol ADY, rhaid iddynt benderfynu a oes gan y plentyn **neu'r person ifanc hwnnw ADY oni bai:**

- bod CDU eisoes ar waith;
- bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ac nad yw ei anghenion wedi newid; neu
- yn achos person ifanc, nad ydyn nhw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

## Ailystyried penderfyniadau

Gall plentyn, ei riant(rhieni)/gofalwr(wyr), neu berson ifanc ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad yr ysgol ynghylch ADY y plentyn/person ifanc.

Yna, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY neu beidio. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol ynghylch y cais a gofyn am ragor o wybodaeth ganddynt. Gall yr awdurdod lleol gadarnhau penderfyniad yr ysgol neu beidio. Os na fydd yr awdurdod lleol yn cadarnhau penderfyniad yr ysgol, gall gyfarwyddo'r ysgol i ysgrifennu CDU.

Os yw plentyn neu riant/gofalwr, neu berson ifanc yn anfodlon â'r CDU, gall ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y cynllun. Gall yr awdurdod lleol ddiwygio'r cynllun, dweud wrth yr ysgol am ddiwygio'r cynllun neu gadarnhau bod y cynllun yn briodol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd cyfrifoldeb am y cynllun (oni bai ei fod wedi gwneud penderfyniad o'r blaen ac nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ac nad oes gwybodaeth newydd i effeithio ar y penderfyniad). Pan fo'r awdurdod lleol yn penderfynu na fydd yn cymryd cyfrifoldeb am y cynllun, mae'n rhaid rhoi gwybod am hyn yn ysgrifenedig i'r plentyn a'r rhiant(rhieni)/gofalwr(wyr) neu berson ifanc.

## Beth os oes anghytuno?

Bydd plant a rhiant(rhieni)/gofalwr(wyr) neu bobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ysgrifennu eu CDU. Bydd gweithio fel hyn yn rhoi cyfleoedd i drafod pryderon ac yn galluogi ymdrin â materion a'u setlo yn gynnar.

O dro i dro, gall fod anghytuno. Bwriad y system ADY a'r broses CDU newydd a'r ddyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, y rhieni neu'r person ifanc yw helpu i oresgyn llawer o'r anghytuno. Mae'n hanfodol bod problemau'n cael eu trin cyn gynted â phosibl ac i blant, rhieni/gofalwyr, a phobl ifanc gael cyfle i fanteisio ar wybodaeth, cyngor a chymorth diduedd.

Pan gaiff bryder ynghylch darpariaeth iechyd neu ofal cymdeithasol ei godi, gall plentyn, ei riant(rhieni)/gofalwr(wyr) neu berson ifanc drafod hyn gyda'r gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol. Pan fyddai'n fuddiol i'r bwrdd iechyd lleol fod yn rhan o'r gwaith o osgoi a datrys anghytundebau o fewn addysg, bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig (SACDA) i gael cyngor.

Ar gyfer plant a rhiant (rhieni)/gofalwr(wyr) neu berson ifanc. Mae nifer o ffyrdd a all helpu i atal problemau neu gamddealltwriaeth rhag codi:

## Siaradwch â'r ysgol

Dylech bob amser siarad â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol cyn gynted ag y bydd gennych bryderon neu ofidion. Rhannwch yr holl wybodaeth sydd gennych am eich plentyn gyda'r ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig. Byddant yn:

- gwrando a chymryd eich problem o ddifrif;
- eich cynnwys chi a'ch plentyn ac ystyried eich barn;
- archwilio'r holl faterion a phryderon; a
- casglu gwybodaeth a chynllunio ffordd ymlaen gyda chi.

## Swyddog a enwir o fewn yr awdurdod lleol

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ysgol neu awdurdod lleol ar unrhyw beth sy'n ymwneud â darpariaeth neu leoliad ADY eich plentyn, dylech gysylltu â swyddog a enwir yn nhimau ADY yr awdurdod lleol yn y Gwasanaeth Cymorth i Ddysgwyr. Gallant eich helpu chi i ddatrys problemau, casglu rhagor o wybodaeth, rhoi cyngor a chymorth ac ailystyried penderfyniadau ysgol. Mae pob awdurdod lleol wedi enwi swyddogion a fydd yn rhoi cyngor a chymorth ac a all helpu drwy ddarparu rhai o'r canlynol:

- cyngor diduedd ar hawliau plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc sydd angen cymorth;
- cymorth i ddatrys anawsterau a chynllunio ffordd ymlaen gyda'r holl bobl eraill sy'n gysylltiedig;
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb i benderfynu beth i'w wneud nesaf;
- cymorth i fod yn bresennol mewn, a chyfrannu at, gyfarfodydd yn yr ysgol neu'r awdurdod lleol: a
- chymorth parhaus os yw problemau'n anodd eu datrys.

## Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Annibynnol ADY - SNAP Cymru

Gallwch hefyd gysylltu â SNAP Cymru sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd i'ch helpu :

- rhannu eich barn yn hyderus, gwneud penderfyniadau a datblygu perthynas dda gyda gweithwyr proffesiynol;
- darparu gwybodaeth glir a syml am eich opsiynau;
- eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus; ac

- eich helpu i ddeall cyfraith, hawliau a phrosesau ADY.

## Datrys Anghytuno / Cyfryngu

Weithiau mae'n anodd dod i gytundeb. Yn y maes hwn, mae SNAP Cymru yn darparu gwasanaeth datrys anghytuno annibynnol. Gall y gwasanaeth helpu plant, eu rhiant(rhieni)/gofalwr(wyr), pobl ifanc, ysgolion, a'r awdurdod addysg lleol pan fydd anghytundeb ynghylch penderfyniadau ADY a darpariaeth ADY.

Bydd cyfryngwr profiadol yn cyfarfod â rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr) a staff yr ysgol neu'r awdurdod addysg lleol. Nid yw'r cyfryngwr yn cymryd ochrau ond bydd yn gwrando ac yn darganfod beth sydd wedi bod yn digwydd. Y nod yw dod o hyd i ateb ymarferol y gall pawb gytuno ag ef.

Gall plant a rhieni/gofalwyr neu bobl ifanc sydd eisiau gwybod mwy am y gwasanaeth hwn siarad â SNAP Cymru ar **0808 801 0608** neu drwy e-bost: **DRS@snapcymru.org** neu ar gyfer atgyfeirio a mwy o wybodaeth gweler y wegfan.

## Anghytuno â'r ddarpariaeth iechyd

Ar gyfer anghytuno sy'n ymwneud â phenderfyniadau a darpariaeth iechyd nad ydynt wedi'u datrys drwy drafodaethau cynharach, gallwch ddefnyddio'r broses "Gweithio i Wella".

## Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae gennych hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol a bydd yn ystyried apeliadau pan fo anghytuno â phenderfyniadau'r awdurdod lleol.

Gall plentyn, ei riant(rhieni)/gofalwr(wyr) neu berson ifanc wneud apêl ynghylch y canlynol:

- adolygiad o'r penderfyniad wedi'i wneud gan ysgol o ran a oes gan blentyn/person ifanc ADY;
- penderfyniad gan awdurdod lleol, yn achos person ifanc, ynghylch a oes angen paratoi a chynnal CDU;
- disgrifiad o ADY yr unigolyn;
- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn CDU;
- yr ysgol sydd wedi'i henwi yn y cynllun neu os nad yw ysgol wedi'i henwi;
- penderfyniad i ddiwygio CDU;

- penderfyniad i beidio â chymryd cyfrifoldeb dros CDU, yn dilyn cais i wneud hynny;
- penderfyniad i beidio â chynnal CDU; neu
- gwrthod penderfynu ar fater.

Os byddwch yn penderfynu apelio i'r Tribiwnlys Addysg, dylech roi gwybod i'r swyddog a enwir o fewn yr awdurdod lleol cyn gynted â phosibl a pharhau i drafod eich pryderon. Gall SNAP Cymru hefyd eich helpu i barhau i ddatrys eich anghytundeb.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, gallech gysylltu ag unrhyw un o'r cysylltiadau isod:

- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ysgol eich plentyn. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol i ddarganfod pwy yw'r CADY yn ysgol eich plentyn.
- Gwasanaeth Cymorth i Ddysgwyr yr awdurdod lleol o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd.
- SNAP Cymru Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Annibynnol Ffôn: **0808 801 0608.**
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
  Ffôn: **0300 025 9800 E-bost: Tribunal.Enquiries@llyw.wales**

Os ydych yn anfodlon ar unrhyw beth, dylech roi gwybod cyn gynted â phosibl. Os ydych yn pryderu am y cynnydd y mae eich plentyn yn ei wneud yn yr ysgol neu goleg, dylech siarad â'r athro dosbarth yn gyntaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymdrin â materion a'u datrys yn brydlon ac atal problemau rhag gwaethygu.